Cariad mewn bocs

Dyfalbarhad / dewrder / rhannu

Dave Cook : 1954–

Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed am Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Efallai eich bod wedi llenwi'r bocsys esgidiau yn llawn o anrhegion i blant mewn gwledydd eraill. Y gŵr tu ôl i'r ymgyrch yma ydi Dave Cook. Dyma dipyn o'i hanes.

"Ys gwn i beth gawn ni i swper gan John a Carol?" gofynnodd Dave i'w wraig Gill. Roedd y ddau wedi edrych ymlaen at swpera yn nhŷ eu ffrindiau John a Carol. Cyn pen dim roedden nhw'n curo'r drws a John yn eu cyfarch a'u gwahodd i'r tŷ. Wrth y bwrdd dyma Dave yn gofyn i John,

"Faset ti'n hoffi dreifio lorri yn llawn o anrhegion i blant yn Romania?"

Gyda'r cwestiwn hwn roedd yr antur fawr wedi cychwyn. Ond doedd Dave ddim ar ei ben ei hun. Roedd o'n teimlo bod Duw yn ei gynorthwyo. Bob hyn a hyn byddai Dave yn gofyn iddo'i hun, "Tybed ydi Duw f'eisiau i o bawb i wneud ei waith yn y byd?"

Pan oedd yn fachgen ysgol, doedd Dave ddim yn gallu cyd-fyw â gweddill y plant. Yn aml iawn byddai'n gwneud drygau. Byddai ei rieni yn ei gau yn ei ystafell wely ond ymhen dim byddai Dave wedi dianc trwy'r ffenestr i lawr y beipen wast a ffwrdd â fo. Gan fod ei deulu yn perthyn i sect o bobl y *Brodyr Arbennig* doedd Dave ddim yn gallu chwarae gyda gweddill ei ddosbarth. Teimlai Dave mor rhwystredig. Byddai'n ymladd â phlant eraill ond ar ôl ymladd hyd waed, y diwrnod wedyn byddai Dave yn siŵr o geisio gwneud ffrindiau unwaith yn rhagor.

Pan oedd yn bedair ar ddeg oed gadawodd yr ysgol ac roedd Mr Fox, ei brifathro, mor falch. Ei eiriau olaf i Dave oedd, "Wnei di ddim ohoni. Dim ond gwastraffu dy amser, dyna i gyd."

Ar ôl gadael yr ysgol, yr un oedd hanes Dave, mwy o drwbwl. Un pnawn daeth ditectif at ddrws rhieni Dave Cook. "Mae gynnon ni le i gredu bod eich mab wedi bod yn dwyn beics," meddai'r ditectif mewn llais awdurdodol. Roedd Mr Cook, y tad, wedi dychryn. Ei fab ei hun yn lleidr!

"Mae gynnon ni ddigon o dystiolaeth i fynd â'ch mab i'r cwrt, ond y tro yma fe rown rybudd iddo...ond y tro nesaf bydd o flaen ei well."

Dechreuodd Dave feddwl am ei ddyfodol o ddifri. Roedd yn awyddus iawn i ddod yn rhydd o ofal y Brodyr Arbennig. Bu trafodaeth rhyngddo a'i rieni. Gadawodd y Brodyr a daeth yn aelod selog mewn capel yng Nghaer. Rhoddodd ei holl egni i waith y capel. Drwy'r amser roedd Dave yn sicr fod Duw "â'i lygaid arno". Cafodd swydd fel rheolwr i gwmni gwydrau dwbl. Pan oedd yn gweithio gyda'r cwmni hwn y dechreuodd ar y gwaith gydag Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

Erbyn hyn mae ei waith gyda'r Ymgyrch wedi cymryd drosodd y cyfan. Bellach dyma ei waith llawn amser. Mynd o gwmpas Prydain ac Ewrop i siarad am ei waith, ond y gwaith pwysicaf ydi llenwi bocs sgidiau yn llawn anrhegion. Yn ôl Dave, mae'n werth y byd gweld wyneb plentyn bach pan fydd yn agor y bocs sy'n llawn o anrhegion.

"Pan laniodd Iesu, gwelodd dyrfa fawr, a thosturiodd wrthynt..."

(Hoff adnod Dave Cook, Mathew 14:14)

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd
bendithia waith Dave Cook,
bendithia'r bocsys
a rho dy fendith ar y plant
sydd wedi llenwi'r bocsys
ac yn arbennig, rho dy fendith
ar y plant sydd yn derbyn y bocsys.
Amen.

Ydych chi'n credu bod Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn rhagori ar ymgyrchoedd eraill am fod y bocsys yn mynd yn uniongyrchol i'r plant?